



Ysgol Pentreuchaf

158. Polisi Absenoldeb Athrawon

Nod

Sicrhau fod pawb yn gyfarwydd â'r rheolau y cytunwyd arnynt rhwng cynrychiolwyr yr athrawon a'r Awdurdod Addysg.

Canllawiau

1. Os yw athro/athrawes yn absennol am dri diwrnod yn unig oherwydd salwch, nid oes angen tystysgrif meddyg. Os yw'r salwch yn parhau hyd at bum diwrnod, rhaid cael Tystysgrif Hunan-Dystiedig (Self Certification) a'i anfon i'r Pennaeth. Os yw'r salwch yn parhau am fwy na pum diwrnod, rhaid cael Tystysgrif Meddyg a'i anfon i'r Pennaeth.
2. Rhaid i bob athro/athrawes gyflwyno pob cais am absenoldeb i'r Pennaeth.
- 3.

CATEGORI	TAL / HEB DAL	CANIATAD GAN
A	Gyda thâl	Pennaeth
B	Heb dâl	Pennaeth
C	Gyda thâl	Pennaeth a Chadeirydd y
Llywodraethwyr		
CH	Heb dâl	Pennaeth a Chadeirydd y
Llywodraethwyr		
D	Anhebygol ond ceisiadau i	Gadeirydd y
Llywodraethwyr a'r		
	Cyfarwyddwr Addysg ar y	cyd.

4. Marwolaeth Perthynas (absenoldebau i'w cymryd yn union wedi'r brofedigaeth os yn ymarferol).

i) Uchafrif o 5 diwrnod gwaith oherwydd marwolaeth gŵr / gwraig / plentyn / tad / mam / llysdad / llysfam i'r athro/athrawes. **Categori A**

ii) Uchafrif o 3 diwrnod gwaith oherwydd marwolaeth brawd / chwaer / rhieni-yng-nghyfraith / gwarcheidwad / perthynas sy'n preswyllo gyda'r athro/athrawes adeg y farwolaeth neu y mae'r athro/athrawes yn gwbl gyfrifol am drefniadau ei angladd.

Categori A

iii) Uchafrif o 1 diwrnod gwaith oherwydd marwolaeth taid / nain / ðyr / wyres / brawd-yng-nghyfraith / chwaer-yng-nghyfraith.

Categori A

iv) Uchafrif o 1 diwrnod gwaith oherwydd marwolaeth perthynas neu gyfaill agos nas crybwyllir yn i) i iii) uchod.

Categori B

5. Gwaeledd Perthynas (gwaeledd difrifol)

i) Uchafrif o 3 diwrnod gwaith ym mhob achos oherwydd gwaeledd difrifol gwraig / gwr / plentyn / tad / mam / brawd / chwaer / unrhyw berthynas a fo'n preswyllo gyda'r athro/athrawes (yn

absenoldeb cymorth arall). Rhaid cadarnhau'r absenoldeb gan dystysgrif feddygol ynghyd â datganiad bod angen i'r athro/athrawes aros gartref. Gall yr athro/athrawes wneud cais am ad-daliad cost y dystysgrif gan yr Awdurdod Addysg.

Categori A

ii) Absenoldeb o fwy na 3 niwrnod oherwydd gwaeledd perthnasau a enwir yn i) uchod neu unrhyw absenoldeb oherwydd gwaeledd perthnasau eraill

Categori CH

6. Byrddau Meddygol, Clinigau a.y.y.b.

i) Mynychu ysbytai, clinigau a.y.y.b i dderbyn triniaeth bersonol, neu er mwyn ymgynghori ag arbenigwyr, ymddangos o flaen byrddau meddygol neu ymweld â deintyddion mewn achosion brys. Caniateir hyd at 1 diwrnod i fynd gyda pherthynas agos (fel yn li) uchod) neu berthynas sy'n preswyllo yn yr un tŷ â'r athrawes i'r ysbyty.

Categori A

ii) Triniaeth ddeintyddol heb fod yn achos o frys.

Categori B

iii) Archwiliadau deintyddol a meddygol y gellid disgwyl i'r athrawes eu trefnu yn ei hamser ei hun.

Categori D

7. Priodasau

i) Uchafrif o diwrnod i fynd i briodas mab neu ferch.

Categori A

ii) Uchafrif o 1 diwrnod i fynd i briodas perthynas neu ffrind agos.

Categori B

iii) Priodi yn ystod tymor ysgol.

Categori D

8. Materion preifat o frys.

Categori B

9. Llysoedd barn, dyletswyddau cyhoeddus.

Categori A

10. Cyfweiliadau - addysg

Categori A nad ydynt yn ymwneud ag addysg

Categori B

11. Cyfarfodydd a Gwasanaethau Crefyddol - hyd at 1 diwrnod y flwyddyn lle mae'r athrawes neu blant a hyfforddwyd ganddi yn cymryd rhan.

Categori A

12. Symud tŷ - uchafrif o 1 diwrnod i athrawes sy'n berchen neu denant.

Categori A

Casgliad

Dylid cyfeirio at Ddogfen Reolau'r Awdurdod Addysg am fwy o fanylion a rhestr cynhwysfawr o bob math o absenoldebau eraill.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, **Cadeirydd y**
Llywodraethwyr

Dyddiad: _____